FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION CADARN

pumed cyfarfod ar hugain y fforwm a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 3 yn Neuadd y Dref, Wrecsam
ar ddydd Gwener, 4 Mai 2007.

12/07 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Presennol:

CADEIRYDD
Ieuan Lewis

YSGRIFENNYDD
Emma Haldane

AELODAU
John Cooper-Poole
Sue Gittins
John Marchant
Clive Menzies
Gerald Moss
Margaret Murphy
Karl Prakel
Shelagh Roberts
Mabyn Pickering
Edward Wardle

ERAILL
Martin Howorth
Alun Price (CCGC)
Siôn Roberts (Ceidwad Mynediad)

Ymddiheuriadau: Mavis McBride and Gwynfor Jones

13/07 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod ar 26 Ionawr 2007

Dosbarthwyd drafft y cofnodion i'r aelodau ar 12 Chwefror 2007. Gwnaed ychydig fân newidiadau a chadarnhawyd y cofnodion ar 26 Chwefror 2007.

40/06 Cyfranogiad Ieuenctid

Roedd Clive Menzies wedi cysylltu â Hyrwyddwr Fforwm Ieuenctid Wrecsam ar ôl e-bost a galwadau ffôn niferus. Gofynnwyd i Clive gwblhau dogfen, oedd wedi cael ei dychwelyd beth amser yn ôl, ond nid oedd wedi cael unrhyw ymateb hyd yn hyn. Byddai John Marchant yn cysylltu â'r Hyrwyddwr i esbonio pam na chafwyd ymateb. Teimlai'r Aelodau y gall Katie Birks, fel myfyriwr, fod â rhai awgrymiadau ar hyrwyddo 'Cyfranogiad Ieuenctid'. Efallai y bydd myfyrwyr yr Amgylchedd yn NEWI hefyd yn mynegi diddordeb.

YR YSGRIFENNYDD I GYSYLLTU Â KATIE BIRKS A NEWI I GAEL SYNIADAU

66/06 Mapiau Rhyngweithiol

Gofynnwyd i'r Aelodau edrych ar 'Shrop-Map' a'r Map Cynllunio ar Wefan Cyngor Sir y Fflint yn y cyfarfod diwethaf. Roedd Clive wedi edrych ar y wefan hon a chynigiodd yr eitem hon ar gyfer ei thrafod yn y cyfarfod nesaf

CYTUNWYD: EITEM AGENDA NESAF

53/06 – Parcio mewn Cilfannau

Dywedodd Sue Gittins bod Gogledd Gororau Cymru wedi gwneud cynnig cyfredol am gymorth ariannol i brosiectau gwledig a bod Cynllun Busnes yn cael ei baratoi i ddwyn y rhaglen ymlaen i 2013. Ni fu unrhyw arwydd hyd yn hyn o faint o arian oedd ar gael.

Roedd hwn yn Arweiniad y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer cynorthwyo cymunedau gwledig wella ansawdd bywyd a ffyniant economaidd yn eu hardal leol ac yn cael ei gyllido trwy Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF) gyda chyllid cyfatebol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Felly, roedd Gogledd Gororau Cymru'n chwilio am brosiectau addas mewn cymunedau gwledig allai gynorthwyo datblygu twristiaeth trwy fynediad i gefn gwlad. Roedd 'Parcio Oddi ar y Ffordd' eisoes wedi cael ei nodi fel problem mewn rhai ardaloedd gwledig, yn enwedig lle bydd yn cysylltu â Thir Mynediad a Llwybrau Cenedlaethol.

Teimlai Sue Gittins y byddai cynghorau cymuned, gyda chefnogaeth y Fforwm Mynediad Lleol i wneud cynigion, yn cael eu gweld yn fwy ffafriol.

Roedd pawb yn cytuno y gallai ysgrifennu at y cynghorau cymuned yn y cyfnod cynnar hwn gynorthwyo nodi prosiectau mewn da bryd.

YR YSGRIFENNYDD I YSGRIFENNU AT GYNGHORAU CYMUNED

14/07 Adroddiad y Cadeirydd

- Ar ran y Fforwm, llongyfarchodd y Cadeirydd Clive Menzies, y Dirprwy Gadeirydd, ar ddod yn Gynrychiolydd Cenedlaethol dros Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru.

- Cynllun Datblygu Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2006/21: Roedd Cyfranogiad Cyn Adneuo (Cyfnod Ymgynghori) wedi cwblhau cyfres o achlysuron ymgysylltu yn ddiweddar lle'r ystyriodd budd-ddeiliaid allweddol ac ymgynghoreion eraill faterion a dewisiadau strategaeth. Roedd crynodeb o ganfyddiadau allweddol wedi cael eu cynhyrchu ac roedd copi llawn i'w gael ar wefan y Cyngor http://www.wrexham.gov.uk/english/planning_portal/plan_policy/local_development_plan.htm ac o'r adran gynllunio.

  Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y fforwm yn teimlo y dylai gyfranogi.

  Dywedodd Edward Wardle y cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn ddiweddar ym Mronington lle'r oedd cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi mynychu i roi cyflwyniad ac ateb cwestiynau. Teimlai John Cooper-Poole fod mwy o gyfle nawr i wneud sylwadau nag yn ddiweddarach yn y cynllun.

  ROEDD PAWB YN CYTUNO: Eitem i'w rhoi ar agenda yn y dyfodol.
  Aelodau â diddordeb i gael clywed am gynnydd.

- Dywedodd y Cadeirydd wrth y fforwm y byddai'n symud allan o'r ardal yn fuan ac, oherwydd cyfyngiadau gwaith, roedd eisiau darfod bod yn Gadeirydd WLAF ar ôl y cyfarfod, ond byddai'n dal i eistedd fel aelod o'r Fforwm.

Gofynnodd y Cadeirydd beth oedd y broses i enwebu ac ethol cadeirydd newydd.

Ysgrifennydd i Gynghori

Diolchodd i aelodau'r Fforwm diwethaf a phresennol am eu holl gymorth a chefnogaeth dros yr ychydig flynyddoedd aeth heibio a llongyfarchodd Emma, John a Katie am eu gwaith ac ymdrechion hynod werthfawr. Teimlai fod parch mawr yng Nghymru i'r Fforwm hwn a'i waith a bod staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cyfrannu at hyn.

15/07 Adroddiad yr Ysgrifennydd

- Mae Cynhadledd LAF 2007 i'w chynnal ar Faes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd, Llanfair ym Muallt ar ddydd Gwener, 15 Mehefin, 10.30 am i 4.30 pm. Roedd tri lle ar gael ar gyfer pob LAF. Dylai rhai â diddordeb gysylltu â'r Ysgrifennydd mor fuan ag y gallant.
- **Logo WLAF**
  Teimlai'r Ysgrifennydd y gallai logo gynorthwyo tynnu sylw at WLAF. Gofynnodd am awgrymiadau a syniadau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf.
  EITEM AGENDA - CYFARFOD NESAF

16/07 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Dywedodd Martin Howorth, Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, bod cyfarfod arbennig ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi cael ei gynnal ar 9 Mawrth yn Nyfroedd Alun i aelodau LAF ei fynychu. Dosbarthwyd y Cofnodion eisoes.

Dywedodd wrth y grŵp y byddai'r Cynllun yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnos nesaf gyda chyfnod Ymgynghori Statudol â'r Cyhoedd i ddod i ben ar 17 Awst 2007. Byddai'r Cynllun yn cael ei anfonwyd at yr holl gynghorau cymuned yn y cylch ac aelodau'r Cyngor, ynghyd â phobl a ymatebodd yn y cyfnod cyntaf. Byddai'r fersiwn terfynol yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Tachwedd 2007, ar ôl cael ei drafod ym Mhwyllgor Archwilio'r Amgylchedd ac Adfywio y Cyngor. Teimlai Martin y byddai'n fuddiol trafod y canfyddiadau yn y cyfarfod nesaf, efallai cyn mis Medi.

CYTUNWYD: Trafod y canfyddiadau ar ôl y cyfnod ymgynghori yn y cyfarfod nesaf.

17/07 Adroddiad y Ceidwaid Mynediad

- Cyflwynodd Siôn Roberts, Ceidwad Mynediad, adroddiad ar waith ar y gweill ar hyn o bryd.
  Eglurodd Siôn ei fod wedi bod yn treulio amser yn ddiweddar yn delio â chwynion a dderbyniwyd ac yn cadw cyswllt â chontractwyr. Roedd y Cyngor i godi dwy bont droed newydd dros fisoedd yr haf ar lwybr sy'n rhedeg o'r Gwyrddymp i Shocklach. Byddai strimio'n digwydd yn fuan ar ryw 60 o lwybrau yn y Sir a byddant hefyd yn cael eu strimio eto ym mis Awst fel rhan o'r rhaglen strimio flynyddol.

- Roedd Alison wedi bod yn canolbwyntio ar waith y prosiect llwybr troed ym Mrymbo. Dosbarthwyd cyhoeddusrwydd i'r cyhoedd. Fel rhan o brosiect llwybrau troed eleni, roedd Alison wedi mynychu cyfarfod cyngor cymuned yng Nghoed-poeth. Roedd y cyngor cymuned wedi dangos diddordeb ym mhrosiect Brymbo. Ers y cyfarfod hwn cynhyrchwyd llawer o ddiddordeb ac roedd cyfarfod i'w gynnal ar 9 Mai 2007 ym Melin y Nant rhwng Alison a darpar syrfewyr llwybrau troed o Goed-poeth. Byddai Alison hefyd yn canolbwyntio ar faterion tocio ac aredig dros yr ychydig fisoedd nesaf.

- Mae Dave Smith yn dal i weithredu fel warden yr ardal bob yn ail benwythnos ac nid oedd ganddo faterion o bwys i'w crybwyll. Ers syrthio'n drwm ar sgrialwyr y tro diwethaf yng nghanol Mawrth (prosiect ar y cyd â Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych a Heddlu Gogledd Cymru), rhoddwyd 7 o rybuddion a hysbysiadau 'adran 59' i bobl ar rostir ger Coedwig Ceiriog. Disgynnodd hysbysiadau o sgrialwyr yn sylweddol iawn ers hynny.

- Mae Dave wedi dylunio fersiwn newydd o'r arwyddion 'Dim Cŵn', fydd yn rhatach i'w gynhyrchu (dim ond un lliw i'w argraffu) ac yn fwy gweladwy i gerddwyr.

18/07 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Dywedodd Alun Price, CCGC, y treuliodd llawer o'i amser yn ddiweddar yn delio â materion yr arfordir a mynediad at yr arfordir.
Hysbyswyd dau dân yn yr ucheldiroedd. Eglurodd Alun y byddai ddefnyddio Mynegrif Difrifoldeb Tân y Swyddfa Feteorolegol i asesu gwybodaeth fel cyflymder y gwynt, tymheredd, adeg o'r flwyddyn a glaw o gymorth i adnabod cyfnodau risg uchel, fel y rhai oedd yn bresennol yn 1976 ac yng ngwanwyn 2003. Teimlai efallai y gellid cau 'Tir Mynediad' er diogelwch yn ystod cyfnodau risg uchel.

19/07 Adroddiad Blynyddol LAF 2006/2007

Cytunwyd ar yr Adroddiad Blynyddol. Y Cyngor i ddarparu Rhagair a'r ysgrifennydd i'w brawf-ddarllen am gamgymeriadau.
Diolchodd y Fforwm i Clive Menzies am ei holl waith caled yn paratoi adroddiad eleni.

20/07 Mynediad at Dir Mynediad yn Nyffryn Ceiriog

Roedd LAF wedi derbyn gohebiaeth oddi wrth Gerald Moss, aelod, oedd yn amlinellu amrywiol anawsterau gyda chael mynediad at dir mynediad ar Fynydd y Berwyn. Roedd rhai o'r materion hyn, fel arwyddion, yn cael eu trafod gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
Anawsterau a nodwyd oedd:

- Maengwyn - cyfeirnod grid SJ145325. Mae hwn yn ffinio ardal anferth o Fynediad Agored gydag un ffens yn ei rwystro ar gyfeirnod grid SJ133323.

- Yng Nghefn Cwm-y-Geifr - cyfeirnod grid SJ120337, sydd â darn o dir mynediad a dim mynediad cyhoeddus.

- Yn olaf, darn o Dir Mynediad sy'n arwain at Gadair Bronwen, nad oes modd mynd iddo'n uniongyrchol o'r dyffryn. Mae hawl dramwy gyhoeddus i Gwm Canol, cyfeirnod grid SJ110345.

  CYTUNWYD: Clive Menzies i ysgrifennu at glerc Cyngor Cymuned Ceiriog Uchaf yn mynegi pryderon a chyngor ar sut y gellid datrys y materion hyn.

21/07 Gorchmynion Addasu'r Map Diffiniol

Ers nifer o flynyddoedd roedd LAF wedi mynegi pryderon ynghylch y sefyllfa gyda DMMO yn y sir. Roedd yr eitem hon wedi cael ei thrafod eisoes yn ei gyfarfod ar 5

Mai 2006 gyda chytundeb i'w dwyn ymlaen i'w thrafod ymhen 12 mis. Eglurodd Clive Menzies mai'r Map Diffiniol oedd cofnod cyfreithiol holl Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PROW) yn y sir. Mae addasiadau'n digwydd pan fydd angen newid Hawliau Tramwy Cyhoeddus oherwydd datblygiad neu am resymau eraill sy'n cyrraedd meini prawf y ddeddfwriaeth briodol. Bydd achosion eraill o DMMO, yn dwyn yr enw achosion 'Budd y Cyhoedd', yn digwydd oherwydd gwallau neu ddiffygion wrth greu'r map diffiniol gwreiddiol, neu oherwydd bod statws Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi newid.

Mae'n ymddangos bod DMMO sy'n talu amdanynt eu hunain yn cael eu prosesu o fewn amser derbyniol; fodd bynnag, nid dyma fel y mae gyda DMMO "Budd y Cyhoedd".

Ddywedodd Clive bod 32 DMMO wedi pentyrru ar hyn o bryd a bod y Cyngor wedi asesu'r rhain a'u rhoi yn nhrefn blaenoriaeth. Yn y tair blynedd diwethaf ni phroseswyd un o'r DMMO "Budd y Cyhoedd" hyn.

Awgrymwyd eto bod yr awdurdod yn penodi rhywun i ddelio'n benodol â materion DMMO gyda thargedau cynhyrchiant diffiniedig.

Cytunwyd: Clive Menzies i ysgrifennu at Brif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor ynghylch pryderon ac argymhellion y fforwm.

22/07 Unrhyw Fater Arall

- Hysbyswyd yr aelodau eisoes bod Tim Stevens wedi cynnig ymddiswyddo fel aelod LAF yn cynrychioli buddiannau moduro. Teimlai Tim, am nad oedd bellach yn byw yn y cylch, bod llawer o'i amser yn mynd ar weithgareddau lleol nad oedd yn arbennig o berthnasol i Wrecsam. Gofynnodd yr Ysgrifennydd i'r aelodau gymeradwyo llythyr a baratowyd yn flaenorol yn diolch i Tim am ei holl gymorth dros y blynyddoedd a fu.
  CYTUNWYD: Yr Ysgrifennydd i'w anfon
  Cadarnhaodd John Marchant bod ni fyddai neb yn dod yn lle Tim ar hyn o bryd.

- **Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Arolwg 5 Mlynedd**
  Hysbysodd John Marchant y canlynol:
  - **Bronington ac Is-y-coed** – Cwblhawyd yr holl fapiau ar gyfer Gerald Moss. Diolchodd John am yr holl waith caled ac amser a roddodd Gerald wrth gwblhau'r arolygon hyn.
  - **Penycae** – Cwblhawyd y mapiau ar gyfer Clive Menzies
  - **Glyntraean** – Mapiau bron â'u gorffen ar gyfer Karl Prakel

  Eglurodd John fod cynhyrchu mapiau unigol ar gyfer pob llwybr yn mynd ag amser a gofynnodd i'r aelodau a allent roi dyddiad iddo pan yr hoffent gael gorffen eu harolygon.

- Dywedodd Mabyn Pickering bod camfa wedi cael ei chodi'n ddiweddar yn ei hardal. Roedd pobl wedi tynnu sylw at ansawdd y gamfa ac eisiau diolch i bwy bynnag oedd wedi ei chodi am wneud gwaith rhagorol.

- Roedd Mabyn yn llawn edmygedd o faint o fynediad oedd ar gael ar Ystâd Wynnstay a theimlai fod yr hawlenni'n wirioneddol werth eu prynu.

- Ar ran y fforwm, diolchodd Clive i'r Cadeirydd am ei holl waith caled ac ymdrechion dros yr ychydig flynyddoedd aeth heibio.

- Mapiau Rhyngweithiol
- Ceisiadau Cynllunio
- Logo WLAF

24/07 Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

Ystafell Bwyllgora 3, Neuadd y Dref ar **Ddydd Gwener, 31 Awst 2007 am 1.30pm**